OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2007 No. 1086

# Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Lwfansau i Aelodau) (Cymru) 2007

## RHAN 3

Cynlluniau — Darpariaeth Bellach

**Swm y lwfansau**

**10.** Rhaid i gynllun bennu mewn cysylltiad ag unrhyw flwyddyn y mae'n ymwneud â hi —

(a) swm y lwfans sylfaenol neu ffordd o ganfod y swm; a

(b) swm y lwfans cyfrifoldeb arbennig neu ffordd o ganfod y swm a, phan fydd gwahanol symiau'n gymwys i wahanol gyfrifoldebau, y swm sy'n gymwys i bob un, neu ffordd o ganfod y swm.

**11.** At ddibenion y cyfnod sy'n dechrau ar y dyddiad y daw'r Rheoliadau hyn i rym yn unol â rheoliad 1(1)(b) ac sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2009 ("y flwyddyn gyntaf"), rhaid i swm yr hawliad ar gyfer-

(a) lwfans sylfaenol;

(b) lwfans cyfrifoldeb arbennig; ac

(c) lwfans gofal,

sy'n daladwy gan awdurdod, beidio â bod yn uwch na'r cyfryw gyfran o'r uchafswm sy'n daladwy ar gyfer pob un o'r lwfansau hynny fel a ragnodir gan y Panel ag sy'n cyfateb i nifer y dyddiau yn y flwyddyn gyntaf fel cyfran o nifer y dyddiau yn y cyfnod o ddeuddeng mis sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2009.

**12.**—(1) Yn ddarostyngedig i baragraffau (2) a (3) caiff cynllun wneud darpariaeth ar gyfer addasu lwfansau'n flynyddol.

(2) Yn ddarostyngedig i baragraff (3), o ran addasiad blynyddol i lwfans sy'n daladwy gan awdurdod am unrhyw flwyddyn—

(a) Rhaid iddo beidio â bod yn fwy na'r swm a ragnodir gan y Panel mewn cysylltiad â—

(i) y lwfans hwnnw;

(ii) yr awdurdod hwnnw; a

(iii) y flwyddyn honno,

mewn adroddiad blynyddol neu adroddiad atodol a gynhyrchir yn unol â rheoliad 35 neu reoliad 36 yn y drefn honno; a

(b) ni chaniateir ei wneud ond drwy gyfeirio at fynegai os yw'r Panel wedi rhagnodi bod y cyfryw fynegai i'w ddefnyddio at y diben hwnnw—

(i) mewn perthynas â'r lwfans hwnnw;

(ii) gan yr awdurdod hwnnw; a

(iii) mewn cysylltiad â'r flwyddyn honno,

mewn adroddiad blynyddol neu adroddiad atodol a gynhyrchir yn unol â rheoliad 35 neu 36 yn y drefn honno.

(3) Os bydd i'r Panel gynhyrchu adroddiad atodol sy'n rhagnodi materion a ddisgrifir ym mharagraff (2)(a) neu (b), caiff awdurdod y mae'r adroddiad hwnnw'n gymwys iddo—

(a) ar gyfer y flwyddyn y mae'r adroddiad atodol yn ymwneud â hi; a

(b) mewn perthynas â'r materion a ragnodir felly,

addasu lwfansau sy'n daladwy ganddo am y flwyddyn honno, er y gallai'r awdurdod fod wedi addasu'r lwfansau o dan baragraff (1) o ganlyniad i adroddiad blynyddol cynharach a gynhyrchwyd gan y Panel mewn cysylltiad â'r flwyddyn honno.

(4) Caiff cynllun ddarparu, pan fydd unrhyw lwfans wedi'i dalu eisoes mewn cysylltiad ag unrhyw gyfnod pan fydd yr aelod dan sylw—

(a) wedi'i atal dros dro neu'n rhannol ei atal dros dro rhag cyflawni cyfrifoldebau neu ddyletswyddau'r aelod hwnnw fel aelod o'r awdurdod yn unol â Rhan III o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 neu reoliadau a wneir o dan y Rhan honno;

(b) yn peidio â bod yn aelod o awdurdod; neu

(c) heb fod â hawl mewn urnhyw ffordd arall i dderbyn y lwfans mewn cysylltiad â'r cyfnod hwnnw,

y caiff yr awdurdod ei gwneud yn ofynnol i'r cyfryw ran o'r lwfans ag sy'n berthnasol i unrhyw gyfnod o'r fath gael ei had-dalu i'r awdurdod.

### Dewis i beidio â derbyn lwfansau

**13.** Rhaid i gynllun ddarparu y caiff aelod, o anfon hysbysiad ysgrifenedig at swyddog priodol yr awdurdod, ddewis peidio â derbyn unrhyw ran o lwfans y mae gan yr aelod hwnnw hawl iddo o dan y cynllun.

### Taliadau

**14.** Caiff cynllun ddarparu bod taliadau o ran lwfansau i'w gwneud ar y cyfryw adegau ag a fyddo wedi'u pennu ynddo, a chaniateir pennu gwahanol adegau ar gyfer gwahanol lwfansau.